Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Lesley Griffiths AS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

22 Gorffennaf 2020

Annwyl Lesley

**Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020**

Hoffwn eich gwahodd i'r cyfarfod Pwyllgor a gynhelir ddydd Llun 14 Medi 2020, a hynny er mwyn cynorthwyo ein gwaith craffu ar Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020, a osodwyd gerbron y Senedd ar 15 Gorffennaf.

Rwy'n nodi mai bwriad Llywodraeth Cymru yw cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Gorchymyn ar 4 Tachwedd 2020. Fodd bynnag, o dan Reol Sefydlog 21.4, rhaid i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad adrodd ar y Gorchymyn erbyn 29 Medi.

Felly, byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn cadarnhau eich bod ar gael ar gyfer y sesiwn ar 14 Medi 2020 (rhwng 09:30 a 10:30) cyn gynted ag y bo modd.

Yn ogystal, yn sgil y llythyr a anfonwyd gennych ar 15 Gorffennaf 2020 at Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Ynni a Materion Gwledig, nodaf fod dogfennau pwysig nad ydynt eto wedi'u cadarnhau a fydd yn cael effaith ar ein gwaith craffu ar y Gorchymyn. Un ohonynt yw'r Cytundeb Fframwaith Amlinellol, a fydd, yn ôl eich llythyr, yn nodi'r rhesymeg dros sefydlu'r fframwaith, y trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau a'r trefniadau llywodraethu. Y llall yw'r concordat rhwng Gweinidogion y pedair Llywodraeth.

Yn eich llythyr, rydych yn nodi y byddwch yn rhannu'r Cytundeb a'r concordat â'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Ynni a Materion Gwledig at ddibenion craffu wrth iddynt gael eu cadarnhau a chyn iddynt gael eu cyflwyno i Gydbwyllgor y Gweinidogion (Trafodaethau'r UE). A fyddai modd i chi gadarnhau, cyn gynted â phosibl, pryd y bydd y dogfennau hyn ar gael i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Ynni a Materion Gwledig, ein Pwyllgor ni, a phwyllgorau perthnasol eraill y Senedd? Hoffwn dynnu sylw at y ffaith bod gennym rwymedigaeth o dan y Rheolau Sefydlog i adrodd ar y Gorchymyn cyn pen 20

diwrnod, ac rydym yn disgwyl i'r wybodaeth gael ei darparu inni mewn da bryd iddi allu cynorthwyo ein gwaith craffu. Yn ogystal, a fyddai modd i chi roi gwybod inni pryd y bydd cyfarfod perthnasol Cydbwyllgor y Gweinidogion (Trafodaethau'r UE), sef y cyfarfod yr ydych yn cyfeirio ato yn eich llythyr, yn cael ei gynnal?

Yn olaf, yn eich llythyr, rydych yn nodi y bydd Gorchymyn pellach sy'n mynd i'r afael â rhai o fanylion technegol y System Masnachu Allyriadau yn cael ei ddwyn ymlaen tua diwedd 2020 (a hynny gan ddefnyddio’r weithdrefn negyddol). Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn darparu eglurder pellach ynghylch cynnwys yr ail Orchymyn hwn, a'r amserlen ar ei gyfer.

Yn gywir

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English